OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 Rhif 414 (Cy. 134)

2021 No. 414 (W. 134)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

The Additional Learning Needs Code (Appointed Day) (Wales) Order 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Medi 2021 fel y diwrnod y daw'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod") a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") i rym.

Mae'r Cod yn gosod gofynion statudol ac yn cynnwys canllawiau statudol mewn perthynas â nodi a diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order appoints 1 September 2021 as the day on which the Additional Learning Needs Code ("the Code") issued under section 4 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 ("the Act") by the Welsh Ministers comes into force.

The Code imposes statutory requirements and includes statutory guidance in relation to identifying and meeting the additional learning needs of children and young people under Part 2 of the Act.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 Rhif 414 (Cy. 134)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

Gwnaed *26 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 5(4)(b) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021.

Y Diwrnod Penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ddod i rym (y gosodwyd copi ohono ar ffurf ddrafft gerbron Senedd Cymru ar 18 Mawrth 2021 ac a gymeradwywyd drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ar 23 Mawrth 2021) yw 1 Medi 2021.

Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2021

©℗Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) 2018 dccc 2.

2021 No. 414 (W. 134)

EDUCATION, WALES

The Additional Learning Needs Code (Appointed Day) (Wales) Order 2021

Made *26 March 2021*

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred on them by section 5(4)(b) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(**1**), make the following Order:

Title

1. The title of this Order is the Additional Learning Needs Code (Appointed Day) (Wales) Order 2021.

Appointed Day

2. The day appointed for the coming into force of the Additional Learning Needs Code (a copy of which was laid in draft before Senedd Cymru on 18 March 2021 and which was approved by a resolution of Senedd Cymru on 23 March 2021) is 1 September 2021.

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
26 March 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2018 anaw 2.

ISBN 978-0-348-20830-6



£4.90